# Cynllun Gwladolion Prydeinig Tramor Hong Kong
# Cwestiynau Cyffredin

Caiff Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (y Bartneriaeth), a sefydlwyd yn 2001, ei hariannu gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i hwyluso arweinyddiaeth strategol, cyngor a chydgysylltu mewn perthynas ag ymfudo. Cynhelir y Bartneriaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i adlewyrchu ei rôl ledled Cymru gyfan mewn perthynas ag ymfudo.

Mae Cydlynydd Prosiect Cynllun BN(O) Hong Kong ym Mhartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Canolbwynt Croeso ar-lein a mentrau eraill i gefnogi'r cynllun, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a'r gefnogaeth briodol ar gael i groesawu deiliaid Fisa BN (O) i Gymru.


| |
|---|
| **Beth yw'r Cynllun HKBN(O)?** |
| **Pa hawliau sydd gan ddeiliaid fisa BN(O)?** |
| **Beth wyddom ni am Hongkongiaid?** |
| **A oes angen i Ddeiliaid Fisa Hong Kong BN(O) dalu'r Gordal Iechyd Rhyngwladol?** |
| **Beth yw Trwydded Breswyl Fiometrig?** |
| **A oes sefydliadau sy'n gallu darparu cefnogaeth?** |
| **Beth yw eich manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth?** |


## Beth yw'r Cynllun Gwladolion Prydeinig Tramor Hong Kong (HKBN(O))

Cafodd llwybr BN(O) ei lansio gan y Swyddfa Gartref ar 31 Ionawr 2021 ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad hanesyddol a moesol y DU i'r bobl hynny o Hong Kong a ddewisodd gadw eu cysylltiadau â'r DU drwy dderbyn statws BN(O) pan drosglwyddwyd Hong Kong i Tsieina ym 1997.

Mae pobl o Hong Kong yn cael eu hystyried yn Wladolion Prydeinig (Tramor), a gallant wneud cais am fisa Gwladolion Prydeinig (Tramor).

Gall plant Gwladolion Prydeinig (Tramor) sy'n 18 oed neu'n hŷn ac sydd wedi cael eu geni ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 1997, wneud cais ar wahân i'w rhiant. Gall aelodau o'ch teulu wneud cais gyda chi hefyd.

## Pa hawliau sydd gan ddeiliaid fisa BN(O)?

Mae gan ddeiliaid fisa BN(O) ac aelodau o'u teulu hawl i fyw, gweithio ac astudio yn y DU ond mae'r polisi Dim Hawl Cyrchu Cronfeydd Cyhoeddus (DHCCC) yn berthnasol iddynt, sy'n golygu na allant gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus fel budd-daliadau na chymorth tai gan gynghorau.

Mae deiliaid fisa BN(O) yn gymwys i wneud cais am "newid amod" i godi eu statws DHCCC a chael mynediad at arian cyhoeddus pan fyddant yn wynebu amddifadedd ac ni fydd hyn yn effeithio ar eu fisa na'u cymhwysedd i sefydlu yn y wlad. Gwneud cais i newid eich caniatâd i gael mynediad at gronfeydd cyhoeddus - GOV.UK (www.gov.uk)

O dan Gynlluniau HKBN(O), mae deiliaid fisa yn gallu gweithio a byw unrhyw le yn y DU. Bydd angen iddynt brofi eu hawl i weithio trwy ddefnyddio eu Trwydded Breswylio Fiometrig neu ddefnyddio gwasanaeth ar-lein a ddarperir gan y Swyddfa Gartref. Profi eich hawl i weithio i gyflogwr: Cael cod rhannu ar-lein - GOV.UK (www.gov.uk)

Yn yr un modd ag unrhyw Ddinesydd Prydeinig, bydd angen rhif Yswiriant Gwladol ar ddeiliaid fisa sy'n dymuno gweithio. Gwneud cais am rif Yswiriant Gwladol: Pwy all wneud cais am rif Yswiriant Gwladol - GOV.UK (www.gov.uk)

Mae plant yn gallu cael mynediad i addysg, ond ni fydd ganddynt hawl i "Ffioedd Cartref" mewn addysg uwch nes eu bod wedi cael "statws sefydlog / caniatâd amhenodol i aros".

## A oes angen i Ddeiliaid Fisa Hong Kong BN(O) dalu'r Gordal Iechyd Rhyngwladol?

Oes, mae angen i Ddeiliaid Fisa Hong Kong BN(O), gan gynnwys aelodau o'u teulu, dalu'r gordal gofal iechyd er mwyn defnyddio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn y DU.

I bob oedolyn (18 oed neu'n hŷn) y gost yw:

- £2,587.50 os ydych yn aros am 2 flynedd a 6 mis.
- £5,175 os ydych yn aros am 5 mlynedd

I bob plentyn (dan 18 oed) y gost yw:

- £1,940 os ydych yn aros am 2 flynedd a 6 mis.
- £3,880 os ydych yn aros am 5 mlynedd

Mae'r gordal gofal iechyd yn rhan o'r broses o wneud cais am fisa ar-lein.
Am ragor o fanylion cliciwch ar Fisa Tramor i Wladolion Prydeinig

A oes unrhyw eithriadau i dalu'r gordal iechyd rhyngwladol?

Nid oes angen talu'r gordal gofal iechyd os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- Mae'r Fisa Glwadolion Tramor (BNO) Hong Kong yn cael ei ymestyn am 30 mis.
- Mae budd-daliadau yn cael eu derbyn
- Mae'r ymgeisydd yn methu â fforddio talu'r ffi neu'r gordal gofal iechyd

Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd dalu os ydynt yn ymestyn eu fisa am 60 mis.

Bydd angen i'r ymgeisydd roi tystiolaeth i ddangos eu bod yn cael budd-daliadau ac yn methu â fforddio talu'r ffi neu'r gordal gofal iechyd wrth wneud cais i ymestyn eu fisa - er enghraifft cyfriflenni banc â dyddiad o fewn y 3 mis diwethaf.
Am ragor o fanylion cliciwch ar Fisa Tramor i Wladolion Prydeinig

## Beth yw Trwydded Breswyl Fiometrig / eFisa?

Mae Trwydded Breswyl Fiometrig yn gerdyn sy'n nodi statws mewnfudo'r unigolyn. Gellir ei defnyddio i brofi hawliau unigolyn i astudio, i hawlio budd-daliadau neu i gael cymorth gan y cyngor.

Mae eFisa yn gofnod ar-lein o statws mewnfudo ac amodau'r caniatâd i ddod i mewn neu i aros yn y DU. Mae UKVI yn newid dogfennau papur am gofnod ar-lein - eFisa. Bydd angen i ddeiliaid Trwydded Breswyl Fiometrig sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024 greu cyfrif UKVI a chael mynediad at yr eFisa cyn dyddiad terfyn eu Trwydded

## Beth wyddom ni am Hongkongiaid?

Pan mae pobl yn cyrraedd y DU dan Fisa Gwladolion Tramor (BNO) Hong Kong maent yn rhydd i ddewis ble yr hoffent fyw. Nid oes cofnodion ar gael o faint o ddeiliaid Fisa Gwladolion Tramor (BNO) Hong Kong sy'n byw yng Nghymru ac ymhle. Er hynny, gwyddom fod 150,000 o bobl wedi cyrraedd y DU dan lwybr Fisa Gwladolion Tramor (BNO) Hong Kong hyd at ddiwedd mis Mehefin 2024 Llwybrau Diogel a Chyfreithlon (Dyngarol) i'r DU - GOV.UK (www.gov.uk).

## A oes sefydliadau sy'n gallu darparu cefnogaeth?

Ym mis Ebrill 2021, lansiodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Raglen Groeso newydd ar gyfer y DU gyfan i gefnogi'r rheiny â fisa BN(O) i ymgartrefu yma yn y DU.

Sefydlwyd rhwydwaith o 12 o Ganolbwyntiau Croeso dros y we ledled y DU gyfan i baratoi ar gyfer cyrhaeddiad y rheiny ar y llwybr BN(O) gan ddefnyddio isadeiledd presennol y Bartneriaeth Ymfudo Strategol . Mae Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth i'r gymuned Hong Kongiaid trwy'r Canolbwynt Croeso Cymru.

Yng Nghymru a'r DU, mae yna nifer o sefydliadau sy'n cefnogi deiliaid fisa BN(O).

Cymru:
Cwmni Buddiannau Cymunedol Cardiff Hong Konger

Eglwys Gristnogol Tsieineaidd Caerdydd
Cwmni Buddiannau Cymunedol Nomad Reading Group

Friends of Hong Kong in Cardiff

Cenedlaethol:
Hearth Talk (iechyd meddwl)
Hong Kong Well UK (iechyd meddwl)
On Your Side - ESEA Hate Crime and Incident Reporting - On Your Side (onyoursideuk.org) 'On Your Side' - Gwasanaeth Adrodd am Droseddau a Digwyddiadau Casineb yn erbyn Pobl o Ddwyrain a De-ddwyrain Asia

Darllen pellach:

- Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru gyda Phrifysgol Cymru: "Building a New Life in Wales: Adroddiad Ymchwil Arolwg Croeso i Ddeiliaid Fisa Gwladolion Prydeinig Hong Kong (Mawrth 2023)
- Pwyllgor Croeso i Hong Kongiaid: From HK to UK: Hong Kongers' new lives in Britain (2023 Tachwedd)
- Prifysgol Lerpwl: A Study Report on Hong Kong Migrants Recently Arrived in the UK (2023 Gorffennaf)
- Y Swyddfa Gartref Hong Kong BN(O) survey results (2022 Ionawr)
- HongKonger in Britain Cyhoeddiadau (2021 Mehefin - 2023 Awst)

## Beth yw eich manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth?

E-bostiwch WSMPComms@wlga.gov.uk gan nodi 'Ymholiad Lloches' fel pwnc i'ch neges.